TGAU

# CBAC TGAU
# Celf a Dylunio

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllaw Cyflwyno

Addysgu o 2025
Dyfarnu o 2027



Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

# Cynnwys


Nodau'r Canllaw Cyflwyno ........ 1
Strwythur y Cymhwyster ........ 1
Llwybrau ........ 1
Trosolwg o Uned 1 ........ 2
Uned 1: Trefniadau ar gyfer asesiad di-arholiad ........ 2
Trosolwg o Uned 2 ........ 3
Crynodeb o'r asesu ........ 4
Uned 2: Trefniadau ar gyfer asesiad di-arholiad ........ 4
Amcanion Asesu (cyfrannu at y cymhwyster cyfan) ........ 6
Uned 1 ........ 6
Uned 2 ........ 6
Manyleb a Phecyn Asesu ........ 7
Deall yr  ymhelaethiad yn y fanyleb ........ 7
Bonion y fanyleb ........ 7
Cynlluniau Marcio ........ 8
Dyddiadau Pwysig ........ 11


© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Nodau'r Canllaw Cyflwyno

Nod y Canllaw Cyflwyno yw rhoi trosolwg o'r cymhwyster a cheisio helpu athrawon i ddeall sut rydym yn asesu'r cymhwyster TGAU. Bydd yn cynnig cyflwyniad i'r fanyleb, trosolwg o'r asesu, a bydd yn cefnogi athrawon i ddeall yn well sut i baratoi eu dysgwyr ar gyfer asesu'r gwahanol unedau. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am bob uned yn y Canllawiau Cymwysterau sy'n cyd-fynd ag ef.

## Strwythur y Cymhwyster

Mae TGAU Celf a Dylunio CBAC yn cynnwys 2 uned:

| | |
|---|---|
| **Uned 1: Portffolio**<br>Asesiad Di-arholiad<br>**60% o'r cymhwyster** | **120 marc** |
| Bydd y gwaith sy'n cael ei gyflawni o fewn yr uned yn cael ei osod yn fewnol, yn cael ei farcio gan y ganolfan ac yn cael ei gymedroli gan CBAC. | |
| **Uned 2: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol**<br>**10 awr o waith dwys a manwl, ynghyd ag astudio paratoadol**<br>Asesiad di-arholiad<br>**40% o'r cymhwyster** | **80 marc** |
| CBAC fydd yn gosod yr aseiniad wedi'i osod yn allanol, i'w farcio gan y canolfannau a'i gymedroli gan CBAC. | |

Cymhwyster llinol yw hwn. Nid yw'n cynnwys haenau.

Bydd yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol yn cael ei ryddhau i ganolfannau yn nhymor yr hydref (mis Rhagfyr) pob cyfres. Bydd y datganiad cyntaf yn nhymor yr hydref (Rhagfyr) 2026.

Uned 1: Rhaid cwblhau'r portffolio cyn Uned 2: Cyflwynir Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol i ddysgwyr.

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu gyntaf yn haf 2027.

## Llwybrau

Mae'r cymhwyster TGAU Celf a Dylunio ar gael yn y llwybrau canlynol heb unrhyw gyfuniad gwaharddedig o gofrestriadau:

- Celf, crefft a dylunio
- Celfyddyd gain
- Cyfathrebu graffig
- Dylunio tecstilau
- Dylunio tri dimensiwn
- Ffotograffiaeth

Rhaid i ddysgwyr ddewis llwybr. Rhaid dilyn cynnwys y pwnc yn 1.1, 1.2 ac 1.3 ar gyfer pob llwybr.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Trosolwg o Uned 1

**Portffolio**
Math o asesiad: Asesiad Di-arholiad
60% o'r cymhwyster
120 marc

Mae'r uned hon wedi'i llunio i alluogi dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau o fewn y broses greadigol. Dylid annog dysgwyr i wneud darganfyddiadau personol a chymryd risgiau creadigol trwy eu hymchwiliadau eu hunain.

Bydd yn ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu portffolio:

- drwy broject parhaus sy'n dangos datblygiad, mireinio, adfyfyrio a chyflwyniad
- sydd wedi'i osod yn fewnol, mewn ymgynghoriad â'r athro o fannau cychwyn personol a/neu a roddir
- yn seiliedig ar thema, cysyniad neu friff dylunio penodol.

### Uned 1: Trefniadau ar gyfer asesiad di-arholiad

Dylai dysgwyr ddechrau datblygu eu portffolio ar ôl iddynt gael eu cyflwyno i'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a amlinellir yng nghynnwys y pwnc. Dylid darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu ac ehangu dealltwriaeth a gwybodaeth ymarferol trwy weithdai yn y llwybr a ddewiswyd.

Gall athrawon adolygu gwaith ymgeiswyr a rhoi cyngor ar lafar ac yn ysgrifenedig ar lefel gyffredinol er mwyn sicrhau canlyniad gweithredol.

Rhaid i'r ganolfan sicrhau mai gwaith y dysgwyr unigol eu hunain yw'r gwaith sy'n cael ei gyflwyno i'w asesu.

Gall dysgwyr gael mynediad at adnoddau a/nodiadau paratoadol.

Nid oes terfyn amser penodol ar gyfer cwblhau'r portffolio. Argymhellir y dylai gwaith portffolio ddechrau yn ystod tymor y gwanwyn neu dymor yr haf yn y flwyddyn astudio gyntaf. Rhaid i'r portffolio gael ei gwblhau cyn i Uned 2 (Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol) gael ei ryddhau i ddysgwyr yn nhymor y gwanwyn y flwyddyn astudio olaf. Dylai gwaith ymgeiswyr gael ei storio'n ddiogel ar ôl ei gyflwyno ac yn ystod y cyfnodau marcio, cymedroli ac adolygu. Ni ddylid rhyddhau gwaith ymgeiswyr nes bod y cyfnod Adolygu Marcio a Chymedroli wedi dod i ben.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Trosolwg o Uned 2

**Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol**
Math o asesiad: Asesiad Di-arholiad
40% o'r cymhwyster
80 marc

Pwrpas yr uned hon yw cynnal ymchwil gyd-destunol ac ymarferol ac astudiaethau cefnogi yn ystod cyfnod paratoadol. Bydd hyn yn llywio ymateb y dysgwr yn ystod cyfnod o 10 awr o ffocws parhaus.


Mae'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol yn cynnwys 5 syniad mawr trosfwaol. Rhaid i ddysgwyr ddewis un syniad mawr yn unig a defnyddio unrhyw un o'r ysgogiadau o'r syniad mawr i lywio eu gwaith.

Bydd yn ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu ymateb:
- gan ddangos datblygiad, mireinio, adfyfyrio a chyflwyniad
- sy'n seiliedig ar un o'r syniadau mawr.

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn cymhwyso'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd yn ystod Uned 1 mewn ymateb i'r syniadau mawr a osodwyd gan CBAC.

Bydd yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol yn cael ei ryddhau i'r canolfannau cyn diwedd tymor yr hydref ym mlwyddyn olaf y cwrs er mwyn caniatáu amser i gynllunio a pharatoi deunyddiau cefnogi. Dylid rhyddhau'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol i ddysgwyr yn ystod tymor y gwanwyn ym mlwyddyn olaf eu hastudiaeth.

Enghreifftiau o Syniadau Mawr:




Mae'r rhain yn enghreifftiau o syniadau mawr y gellid eu cynnwys yn yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Crynodeb o'r asesu

Y fframwaith isod yw'r amserlen a argymhellir i ganolfannau.

| Bl10 Tymor 1 | Bl10 Tymor 2 | Bl10 Tymor 3 | Bl11 Tymor 1 | Bl11 Tymor 2 | Bl11 Tymor 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| • Meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau drwy weithdai | • Meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau drwy weithdai<br>• Gallwch ddechrau gweithio ar waith portffolio | • Gwaith portffolio | • Gwaith portffolio<br>• Rhyddhau Aseiniad wedi'i osod yn Allanol i athrawon yn unig, ar gyfer cynllunio a pharatoi (1 Rhagfyr) | • Cyflwyno'r portffolio cyn rhyddhau'r Aseiniad wedi'i osod yn Allanol i ddysgwyr<br>• Rhyddhau Aseiniad wedi'i osod yn allanol i ddysgwyr gychwyn Rhan 1 - cyfnod paratoi | • Aseiniad wedi'i osod yn Allanol Rhan 2 - cyfnod o waith dwys a manwl |

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar gynnwys, ffurf na maint y gwaith na faint o dystiolaeth i'w dethol a'i chyflwyno, er y dylai'r pwyslais fod ar yr ansawdd yn hytrach na'r maint.

Gellir cyflwyno unedau mewn unrhyw fformat(au) addas, er enghraifft:
- taflenni arddangos
- dyddiaduron gweledol
- llyfr(au) braslunio/llyfr(au) gwaith
- portffolio digidol
- arddangosfeydd wedi'u mowntio
- gosodiadau
- cyflwyniad digidol.

### Uned 2: Trefniadau ar gyfer asesiad di-arholiad

Caiff yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol ei ryddhau ar Borth CBAC ar Ragfyr y 1af ym mlwyddyn olaf pob cyfres. Mae hyn ar gyfer athrawon yn unig er mwyn iddynt baratoi adnoddau i ddysgwyr.

Dylid cyflwyno'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol i ddysgwyr ar ôl cyflwyno'r portffolio, yn ystod ail dymor y flwyddyn astudio olaf.

Mae'n ofynnol i ddysgwyr ddewis un o'r syniadau mawr a'i ddatblygu ar ffurf:
- ymateb personol
- briff dylunio penodol
- neu ddull addas arall.

**RHAN 1: cyfnod astudio paratoadol**

Bydd dysgwyr yn datblygu eu hymateb dros gyfnod astudio paratoadol. Caiff y swm o amser a neilltuir ar gyfer hwn ei benderfynu gan y ganolfan.

Yn ystod y cyfnod astudio paratoadol bydd ymchwilio, datblygu a mireinio ymatebion yn digwydd
Dylent ddigwydd ar ffurf gwaith/astudiaethau cefnogol ymarferol, beirniadol a chyd-destunol ynghyd â myfyrdodau ar y broses. Dim ond gwaith a gynhyrchwyd yn ystod y cyfnod paratoadol y gellir ei ddefnyddio a'i symud ymlaen i Ran 2.

Mae gan Ran 1 Uned 2 yr un rheolaethau ag Uned 1 fel y nodir yn y Pecyn Asesu.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**RHAN 2: cyfnod o waith dwys a manwl**

Dylid gwneud hyn dan oruchwyliaeth uniongyrchol.

Ni all athrawon roi unrhyw gyngor nac adborth ar waith dysgwyr.

Gall dysgwyr gael mynediad at adnoddau/nodiadau paratoadol a gynhyrchwyd yn Rhan 1 yn unig.

Mae gan ddysgwyr uchafswm o 10 awr i gynhyrchu eu canlyniad, a rhaid iddynt ddechrau gyda
sesiwn 2 awr o hyd o leiaf. **Rhaid** asesu Rhan 1 a Rhan 2 gyda'i gilydd.

**Cyflwyno marciau**

Mae'n ofynnol i ganolfannau gyflwyno marciau ar gyfer y ddwy uned a aseswyd yn fewnol ar-lein yn ystod tymor yr haf yn y flwyddyn astudio olaf i baratoi ar gyfer cymedroli.

Pan fydd marciau wedi'u cyflwyno i CBAC, bydd y system ar-lein yn cymhwyso'r sampl Fformiwla yn seiliedig ar y drefn rheng gyffredinol ar gyfer cyfanswm y mynediad ac yn nodi'n syth sampl yr ymgeiswyr y mae eu gwaith yn cael ei ddewis i'w gymedroli.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Amcanion Asesu (cyfrannu at y cymhwyster cyfan)

### Uned 1

Mae'r amcanion asesu ar gyfer yr uned hon wedi'u dosrannu fel a ganlyn:

| AA1 | AA2 | AA3 | AA4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 15% | 15% | 15% | 15% | 60% |

### Uned 2

Mae'r amcanion asesu ar gyfer yr uned hon wedi'u dosrannu fel a ganlyn:

| AA1 | AA2 | AA3 | AA4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 10% | 10% | 10% | 10% | 40% |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Manyleb a Phecyn Asesu

Pan fyddwn yn datblygu cymwysterau newydd, rydym yn cynhyrchu'r dogfennau canlynol:

- Manyleb – mae’r ddogfen hon yn ymdrin â'r holl wybodaeth a sgiliau y disgwylir i ddysgwyr eu gwybod erbyn diwedd eu cwrs.
- Pecyn Asesu – mae hwn yn cynnwys y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (SAMs) h.y.: papurau arholiad enghreifftiol a thasgau asesiadau di-arholiad enghreifftiol, rheolaethau perthnasol ar gyfer yr asesiad di-arholiad, a chynlluniau marcio

Mae'r canllaw yn adeiladu ar wybodaeth sydd yn y fanyleb a'r pecyn asesu i helpu i wella eich dealltwriaeth o'r dogfennau hynny.

### Deall yr  ymhelaethiad yn y fanyleb

Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- bonion y fanyleb
- beth yw ystyr bonion y fanyleb.

### Bonion y fanyleb

Pan fyddwch chi'n edrych drwy'r fanyleb, byddwch yn sylwi bod y geiriad yn y golofn ymhelaethiad yn amrywio cyn y rhestr o gynnwys y mae angen i ddysgwyr ei wybod; yr enw ar hwn yw bonyn:

**Bonyn y Fanyleb**

| **Ymhelaethiad** |
|---|
| Dylai dysgwyr:<br>• **Wybod a Deall** y broses greadigol drwy archwilio syniadau ac arbrofi gydag amrywiaeth o gyfryngau, technegau, offer, technolegau digidol, a phrosesau sy'n briodol i'w bwriadau unigol eu hunain<br>• **Allu** datblygu ac ymchwilio, gan ddefnyddio sgiliau archwilio a dadansoddi i gefnogi chwilfrydedd ymchwiliol parhaus |

Defnyddir pob bonyn am reswm ychydig yn wahanol:

| Bonyn y Fanyleb | Pa bryd y mae'n cael ei ddefnyddio |
|---|---|
| **Dylai dysgwyr wybod a deall** | Pan fydd yn ofynnol i ddysgwyr ddangos eu gwybodaeth a'i defnyddio i gymhwyso i gyd-destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd. |
| **Dylai dysgwyr allu** | Pan fydd angen i ddysgwyr gymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth at sefyllfaoedd neu ddangos gwaith cymhwyso sgiliau a thechnegau ymarferol. |
| **Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o** | Pryd y dylai dysgwyr ehangu gwybodaeth am y cynnwys penodedig drwy ystod o gyd-destunau. Dylai athrawon gyfeirio at y dogfennau Canllawiau Addysgu i gael arweiniad pellach ynghylch y dyfnder a'r ehangder sy'n ofynnol wrth addysgu'r cynnwys hwn. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cynlluniau Marcio

Mae cynlluniau marcio a/neu feini prawf asesu yn profi'r amcanion dysgu a fwriedir ar gyfer elfen. Maent yn disgrifio'r wybodaeth a'r sgiliau (a'r agwedd o bosibl) y disgwylir i ymgeisydd eu dangos yn eu hymatebion, ac yna'n cael eu defnyddio wrth farcio'r gwaith.

**Cynlluniau marcio seiliedig ar lefelau**
Ar gyfer cwestiynau sy'n gofyn am ymatebion estynedig

| **Cynllun Marcio ar gyfer TGAU CELF A DYLUNIO (Cyfanswm y Marciau = 120)** | | | | **Uned Un: Portffolio** |
|---|---|---|---|---|
| **Band** | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **AA4** |
| | **Datblygu syniadau a dangos dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol o ffynonellau** | **Mireinio gwaith trwy archwilio syniadau, gan ddewis ac arbrofi gyda chyfryngau, technegau, offer, technolegau digidol a phrosesau priodol** | **Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain, a chofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i fwriadau wrth i'r gwaith fynd rhagddo** | **Cyflwyno ymateb personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau ac yn dangos dealltwriaeth o iaith weledol** |
| **5** | 25 – 30 marc | 25 – 30 marc | 25 – 30 marc | 25 – 30 marc |
| | Caiff syniadau eu datblygu mewn ffyrdd soffistigedig a thrylwyr trwy ymchwiliadau dwys, manwl a chydlynol.<br><br>Dadansoddi beirniadol craff a thrwyadl o ffynonellau, sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer ymatebion hyderus ac annibynnol. | Mae syniadau'n cael eu mireinio a'u harchwilio trwy ddethol trylwyr ac arbrofi pwrpasol a chreadigol.<br><br>Defnydd craff a soffistigedig o gyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau sy'n cael eu rheoli'n fedrus a'u defnyddio'n ddychmygus.<br><br>Mae adolygu a gwerthuso parhaus craff a detholus yn cyfrannu'n gyson at fireinio a datblygu'r gwaith wrth iddo fynd rhagddo. | Mae syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau'n cael eu cofnodi'n soffistigedig trwy ymchwil ac ymholi helaeth a chydlynol sy'n hynod o berthnasol i fwriadau personol.<br><br>Ceir adfyfyrio beirniadol craff, trylwyr ac effeithiol ar y gwaith wrth iddo fynd rhagddo, gan ddangos lefel ddofn o ddealltwriaeth ac ystyr. | Ymateb hynod o ddychmygus, personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau mewn ffordd soffistigedig, gydlynol a hyderus.<br><br>Mae'r cyflwyniad yn dangos dealltwriaeth graff a thrylwyr o iaith weledol yn y gwaith a gyflwynir a chaiff pwrpas a bwriad y gwaith eu cyfleu'n glir ac yn argyhoeddiadol iawn. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **4** | 19-24 marc | 19-24 marc | 19-24 marc | 19-24 marc |
|---|---|---|---|---|
| | Datblygiad effeithiol a thrylwyr o syniadau drwy ymchwiliadau dwys, sy'n dangos ffocws.<br><br>Dadansoddi beirniadol hyderus a thrwyadl o ffynonellau, sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer ymatebion pwrpasol ac annibynnol. | Mae syniadau'n cael eu mireinio a'u harchwilio trwy ddethol perthnasol ac arbrofi creadigol.<br><br>Defnydd effeithiol o gyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau sy'n cael eu rheoli a'u defnyddio'n hyderus.<br><br>Mae adolygu a gwerthuso parhaus effeithiol a thrylwyr yn cyfrannu at fireinio a datblygu'r gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen. | Mae syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau'n cael eu cofnodi'n hyderus mewn ffyrdd priodol trwy ymchwil ac ymholi effeithiol sy'n berthnasol i fwriadau personol.<br><br>Ceir adfyfyrio beirniadol trylwyr ac effeithiol ar y gwaith wrth iddo fynd rhagddo, gan ddangos lefel dda o ddealltwriaeth ac ystyr. | Ymateb dychmygus, personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau mewn ffordd hyderus ac effeithiol.<br><br>Mae'r cyflwyniad yn dangos dealltwriaeth dda o iaith weledol yn y gwaith a gyflwynir a chaiff pwrpas a bwriad y gwaith eu cyfleu'n glir ac yn argyhoeddiadol. |
| **3** | 13-18 marc | 13-18 marc | 13-18 marc | 13-18 marc |
| | Caiff syniadau eu datblygu'n weddol dda trwy ymchwiliadau sy'n ddwys ar y cyfan.<br><br>Dadansoddi beirniadol gweddol dda o ffynonellau, sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer ymatebion boddhaol ac annibynnol ar y cyfan. | Mae syniadau'n cael eu mireinio a'u harchwilio trwy ddethol ac arbrofi perthnasol.<br><br>Mae'r defnydd priodol o gyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau yn cael ei reoli a'i weithredu'n weddol dda.<br><br>Mae adolygu a gwerthuso parhaus gweddol dda o archwiliadau yn cyfrannu at fireinio a datblygu'r gwaith wrth iddo fynd rhagddo. | Mae syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau'n cael eu cofnodi'n weddol dda mewn ffyrdd priodol trwy ymchwil ac ymholi sydd at ei gilydd yn berthnasol i fwriadau personol.<br><br>Ceir adfyfyrio gweddol feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd rhagddo, sy'n dangos dealltwriaeth ac ystyr ar y cyfan. | Ymateb gweddol ddychmygus, personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau mewn ffordd foddhaol.<br><br>Mae'r cyflwyniad yn dangos dealltwriaeth resymol o iaith weledol yn y gwaith a gyflwynir a chaiff pwrpas a bwriad y gwaith eu cyfleu'n weddol dda. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 2 | 7-12 o farciau | 7-12 o farciau | 7-12 o farciau | 7-12 o farciau |
|---|---|---|---|---|
| | Peth datblygu syniadau drwy rywfaint o ymchwiliadau rhannol ddwys.<br><br>Peth dadansoddi ffynonellau, sy'n cyfrannu'n rhannol at ymatebion sylfaenol. | Mae syniadau'n cael eu rhannol fireinio a'u harchwilio trwy ddethol ac arbrofi.<br><br>Mae peth ymgais i reoli a defnyddio cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau.<br><br>Mae peth adolygu a gwerthuso parhaus yn cyfrannu'n rhannol at y gwaith wrth iddo fynd rhagddo. | Ceir cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sylfaenol mewn ffyrdd priodol trwy ymchwil ac ymholi sydd weithiau'n berthnasol i fwriadau personol.<br><br>Ceir peth adfyfyrio ar y gwaith wrth iddo fynd rhagddo, sydd weithiau'n dangos dealltwriaeth ac ystyr. | Mae'r ymateb i ryw raddau'n bersonol ac ystyrlon a chaiff bwriadau eu gwireddu mewn ffordd sylfaenol.<br><br>Mae'r cyflwyniad yn dangos peth dealltwriaeth o iaith weledol yn y gwaith a gyflwynir a chaiff pwrpas a bwriad y gwaith eu cyfleu mewn ffordd sy'n argyhoeddi'n rhannol. |
| 1 | 1-6 marc | 1-6 marc | 1-6 marc | 1-6 marc |
| | Datblygu syniadau cyfyngedig trwy ymchwiliadau.<br><br>Dadansoddi cyfyngedig o ffynonellau nad ydynt wedi cael fawr ddim dylanwad ar ymatebion. | Ychydig iawn o fireinio ac archwilio syniadau.<br><br>Ymgais cyfyngedig i reoli a defnyddio cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau.<br><br>Adolygu a gwerthuso parhaus cyfyngedig, sy'n cael fawr ddim dylanwad ar y gwaith wrth iddo fynd rhagddo. | Cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau cyfyngedig mewn ffyrdd priodol trwy ymchwil ac ymholi sydd â pherthnasedd cyfyngedig i fwriadau personol.<br><br>Adfyfyrio cyfyngedig ar y gwaith wrth iddo fynd rhagddo, sy'n dangos dealltwriaeth ac ystyr cyfyngedig. | Ymateb personol cyfyngedig, gydag ychydig iawn o ymdrech i ddangos ystyr, sy'n gwireddu bwriadau mewn ffordd gyfyngedig.<br><br>Mae'r cyflwyniad yn dangos dealltwriaeth gyfyngedig o iaith weledol yn y gwaith a gyflwynir a chaiff pwrpas a bwriad y gwaith eu cyfleu mewn ffordd gyfyngedig. |
| 0 | 0 marc | 0 marc | 0 marc | 0 marc |
| | Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. | Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. | Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. | Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Dyddiadau Pwysig

| | |
|---|---|
| Addysgu TGAU Celf a Dylunio CBAC am y tro cyntaf | 2025 |
| Asesiad cyntaf ar gyfer Uned 1 (asesiad mewnol) | Haf 2027 |
| Asesiad cyntaf ar gyfer Uned 2 (asesiad allanol) | Haf 2027 |
| Rhyddhau briff aseiniad Asesiad Di-arholiad Uned 2 am y tro cyntaf | Ionawr 2027 |
| Cyflwyno Asesiad Di-arholiad Uned 1 am y tro cyntaf | Mai 2027 |
| Cyflwyno Asesiad Di-arholiad Uned 2 am y tro cyntaf | Mai 2027 |
| Ardystio am y tro cyntaf | 2027 |

© WJEC CBAC Ltd. 2025